
Cynllun Grantiau Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru



Welsh Government's Wales and Africa Grant Scheme

CYLCH YMATEB UNIONGYRCHOL COVID CYMRU AC AFFRICA 2020-21

Cyd-destun

Caiff effeithiau byd-eang parhaus argyfwng COVID-19 eu profi mewn gwahanol ffyrdd ledled y byd. Fel rhaglen grant flaenllaw Cymru ar gyfer fenter Cymru Affrica, bydd Cynllun Grantiau Bychain Cymru ac Affrica yn cyllido grwpiau i weithio gyda'u partneriaid Affricanaidd er mwyn lleihau effeithiau'r feirws ar partneriaid yn Affrica.

Ni ddyfernir y cyllid hwn ar gyfer prosiectau 'busnes fel arfer'. Mae hon yn rownd ychwanegol o gyllid ar gyfer 2020-21. Fydd yr rownd nes o gyllid Cymru Affrica yn digwydd yng Ngwanwyn 2021.

Mae'r cylch grant hwn wedi'i gynllunio ar gyfer yr amgylchiadau rydyn ni'n gweld ein hunain ynddynt, mae'r ffurflen gais wedi'i symleiddio ac os bydd angen unrhyw eglurhad byddwn yn cysylltu â chi.

Y Grantiau sydd ar Gael

Ceir grantiau o £3,000 hyd at £15,000. Os oes gennych gais sy'n disgyn y tu allan i'r ystod grant hwn, siaradwch ag aelod o'r tîm cyn cwblhau eich cais am grant, os gwelwch yn dda. Gallwch gysylltu â CGGC ar walesafricagrants@wcva.cymru.

Mae **£100,000** ar gael ar gyfer y cylch grant ymateb COVID-19 hwn.

Croesewir prosiectau a gyflwynir mewn partneriaeth rhwng grwpiau Cymru (gyda phartneriaid yn Affrica). Ddylai un partner arweiniol gyflwyno unrhyw bartneriaeth neu gais cydweithredol, a fydd, os yn llwyddiannus, yn rheoli'r prosiect ac yn dal y cytundeb grant gyda CGGC.

Amserlen a Phroses y Dyfarniadau

Dylai dyfarniadau grant gael eu gwario erbyn Ionawr 2022, er y disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r dyfarniadau grant yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgarwch brys.

Proses y dyfarniadau

| Cam | Dyddiad | Manylion |
|---|-----------------------------|--|
| Agor i geisiadau | 02 Chwefror 2021 | Mae'r broses ymgeisio am gyllid yn fyw ar wefan CGGC. Dylid cwblhau pob cais ar y ffurflen gais y mae modd ei lawrlwytho a'i dychwelyd i walesafricagrants@wcva.cymru |
| Gwirio ceisiadau am gymhwysedd | Parhaus ers cyflwyno'r cais | Caiff ceisiadau am gyllid eu hadolygu gan Dîm Cyllid Grantiau CGGC a cyn gynted â'u bod yn cael eu hadnabod yn gymwys, at Banel Llywodraeth Cymru i'w hystyried. Os bydd angen eglurhad ynglŷn â phwyntiau penodol, bydd CGGC yn cysylltu â chi, ond gallai hyn achosi oedi i'r penderfyniad ynglŷn â'ch cais. |
| Cyfarfod panel | 16 Chwefror 2021 | Cymeradwyaeth ffurfiol o'r ceisiadau hynny sydd i dderbyn cyllid. |
| Hysbysu ymgeiswyr | 18 Chwefror 2021 | Llythyron Cynnig Grant yn cael eu hanfon at ymgeiswyr llwyddiannus. |
| Taliadau grant yn cael eu prosesu | 24 Chwefror 2021 | Taliadau grant yn cael eu prosesu gan Dîm Cyllid CGGC i gael eu talu i gyfri'r grŵp 3-5 diwrnod gwaith yn ddiweddarach. |
| Y cylch yn ailadrodd hyd nes y cwrddir â'r dyfarniad cyllid. | | |

Bydd y cylch hwn yn parhau hyd nes y cwrddir â'r dyfarniad cyllid. Nid oes dyddiadau cau, caiff ceisiadau eu dyfarnu yn wythnosol. Fel y dywedwyd yn flaenorol, mae £100,000 ar gael i'w ddyfarnu yn y rownd hon a rhagwelir y bydd lefel uchel o alw. Anogir grwpiau i gyflwyno eu ceisiadau am gyllid cyn

gynted â phosibl. Os bydd angen unrhyw eglurhad pellach ynglŷn â'ch cais ar ôl i chi ei gyflwyno, bydd tîm CGGC neu Lywodraeth Cymru yn cysylltu â chi.

Rhaid pwysleisio bod hwn yn gylch cyllid grant sy'n ymateb i argyfwng byd-eang, bydd angen i geisiadau am gyllid arddangos yn gryf sut byddant yn helpu y bartneriaeth i addasu i gyflawni mewn ffyrdd newydd a meithrin ystwythder i helpu sicrhau y bydd gweithgaredd yn parhau. Bydd y panel yn dyfarnu grantiau'n ffurfiol unwaith yr wythnos. Bydd holl benderfyniadau'r panel yn derfynol ac ni fydd modd apelio yn eu herbyn. Os na theimlir bod eich cais yn arddangos effaith gref mewn ymateb i sefyllfa argyfyngus, mae'n bosibl y caiff ei roi o'r neilltu gan y panel i'w ystyried rhywbryd eto. Unwaith y cwrddir â'r dyfarniad cyllid, caiff pob ymgeisydd ei hysbysu.

PWYNTIAU I'W NODI CYN CYFLWYNO'CH CAIS AM GYLLID:

- Ni roddir cyllid ar gyfer teithio rhyngwladol
- Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau y teimlir eu bod yn ymateb ar frys i'r anghenion mwyaf hanfodol
- Ni roddir cyllid i weithgareddau Newid Hinsawdd nac Amgylcheddol heb fod effeithiau byr-dymor clir ar fywoliaethau
- Dylid cynnal gweithgareddau gyda Phartner African sydd eisoes yn bodoli. Ni roddir cyllid i bartneriaethau newydd
- Dylid seilio gweithgareddau ar angen clir sydd wedi ei adnabod ar y cyd â Phartner African
- Mae grwpiau yn ymwybodol o, ac yn dilyn, cyngor atal Covid-19 lleol
- Mae gan weithgareddau ffordd glir o fesur a chofnodi'r effaith y byddant yn ei chael
- Dylai gweithgareddau anelu at fynd i'r afael â rhywedd, anabledd, a chynhwysiant cymdeithasol – lle bo'n bosibl dylid disgrifio hyn ym mwriad y cais
- Ni ddylai gweithgareddau wneud unrhyw niwed. Fe ddylsent osgoi cyfathrebu wyneb yn wyneb trwy ddefnyddio ffonau symudol ac SMS lle bo'n bosibl
- Ni thelir unrhyw gyllid i gyfrif banc unigolyn – dylid cyflwyno prawf o gyfrif yn enw'r grŵp gyda'ch cais am gyllid
- Dylid cyflwyno dogfen lywodraethu eich grŵp neu'ch mudiad gyda'ch cais am gyllid yn ogystal

AMCANION GRANT AR GYFER CYLCH YMATEB UNIONGYRCHOL COVID-19 CYNLLUN GRANT CYMRU AFFRICA

- CYNORTHWYO PARTNERIAID AFFRICANAIDD WRTH FYND I'R AFAEL AG EFFEITHIAU UNIONGYRCHOL COVID-19**
- ANNOG ARFERION IECHYD A DIOGELWCH LLYM**
- ADDASIAD DIGIDOL I WEITHIO MEWN PARTNERIAETH**
- GWNEUD CYFRANIADAU I'R THEMÂU CANLYNOL SY'N PERTHYN I GYNLLUN GRANT CYMRU AFFRICA**
 - Iechyd
 - Bywoliaethau Cynaliadwy
 - Dysgu Gydol Oes

Isod ceir rhai enghreifftiau o'r gweithgareddau y gellid ymgymryd â hwy wrth ymateb yn uniongyrchol i COVID-19 yng ngwlad eich partner Affricanaidd. Mae'r rhain yn enghreifftiau o'r math o weithgareddau sy'n ymateb yn uniongyrchol i COVID-19.

MYND I'R AFAEL Â LLEDAENIAD COVID-19

Ymrwymiad a chodi ymwybyddiaeth gymunedol

Gallai gweithgareddau gynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth o bandemig COVID-19, symptomau'r feirws, pwysigrwydd golchi dwylo ac ymbellhau cymdeithasol
- Mynd i'r afael â chamwybodaeth ynglŷn â throsglwyddiad y feirws, dulliau atal a thrin
- Codi ymwybyddiaeth ynglŷn â sut a phryd i gysylltu â gwasanaethau iechyd ac argyfwng hanfodol
- Cartrefu teuluoedd er mwyn cefnogi ymdrechion cwarantîn ac ynysu cymdeithasol

Mae Public Health England wedi cyhoeddi adnoddau ar gyfer ymgyrch ymwybyddiaeth COVID-19 [yma](#).

Mae gan Sefydliad Iechyd y Byd ganllawiau technegol ar gyfathrebu risg ac ymgysylltiad cymunedol [yma](#). Gallai ymgeiswyr ddymuno dod o hyd i adnoddau cenedlaethol perthnasol mewn fformatiau ac ieithoedd wedi'u targedu ar gyfer gwahanol grwpiau poblogaeth

IECHYD

Cefnogaeth system iechyd

Gallai gweithgareddau gynnwys:

- Cefnogi profi, olrhain a monitro cysylltiadau ac ymdrechion cwarantin
- Ymyrraeth glinigol i gefnogi rheolaeth achos
- Cynnal gwasanaethau iechyd hanfodol gan gynnwys aiddosbarthu adnoddau iechyd a gwneud y gorau o ddarpariaeth gwasanaeth ac atgyfeiriadau
- Adeiladu ac ehangu ar seilwaith iechyd hanfodol gan gynnwys adeiladu neu ailbwrpasu seilwaith sydd eisoes yn bodoli ar gyfer ysbytai newydd neu hybiau argyfwng a chaffael seilwaith meddygol
- Caffael meddyginiaethau hanfodol a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE)

Mae gan Sefydliad Iechyd y Byd ganllaw technegol ar gyfer parodrwydd a gweithrediadau ymateb critigol i COVID-19 gan ddibynnu ar lefel y pandemig [yma](#).

IECHYD MEDDWL A CHEFNOGAETH SEICOGYMDEITHASOL

Gallai gweithgareddau gynnwys:

- Cefnogi ymdrechion iechyd meddwl a lles seicogymdeithasol ar gyfer y boblogaeth gyffredinol
- Mynd i'r afael â stigmâu cymdeithasol yn erbyn unigolion a heintir â COVID-19
- Cefnogi ymdrechion rheoli galar ar gyfer unigolion sydd wedi colli anwyliaid
- Cefnogaeth trawma a blinder ar gyfer gweithwyr gofal iechyd sy'n trin cleifion COVID-19

Cefnogaeth iechyd meddwl hanfodol barhaus i unigolion â chyflyrau iechyd meddwl brys a/ neu afiechydon niwrolegol. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi cyhoeddi canllaw byr ar ystyriaethau iechyd meddwl a seicogymdeithasol yn ystod argyfwng COVID-19 [yma](#).

GOLCHI (gan gynnwys gweithgareddau'n ymwneud â golchi dwylo)

Gallai gweithgareddau gynnwys:

- Sefydlu gorsafoedd golchi dwylo a dosbarthu cynnyrch glendid mewn ardaloedd â mynediad cyfyngedig i ddŵr glân
- Codi ymwybyddiaeth o arferion da golchi dwylo a glanweithdra ehangach
- Sefydlu mynediad i ddŵr glân mewn cartrefi a llochesau

- Cefnogi ymdrechion rheoli gwastraff gan gynnwys glanweithdra tai bach a systemau plymio a ddefnyddir yn gyffredin

Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi cyhoeddi cyfarwyddyd technegol ar ddŵr, glanweithdra, hylendid a rheolaeth gwastraff ar gyfer feirws COVID-19 [yma](#).

MAETHIAD A BYWOLIAETHAU CYNALIADWY

Cefnogaeth dosbarthu bwyd a maethiad

Gallai gweithgareddau gynnwys:

- Cefnogi cynhyrchu bwyd a chadwyni cyflenwi
- Dosbarthu bwyd angenrheidiol a rheoli diogelwch bwyd
- Codi ymwybyddiaeth o gyngor bwydo ar y fron yn ystod argyfwng COVID-19
- Cefnogaeth maethiad ar gyfer plant oed ysgol a oedd cyn hynny'n derbyn prydau ysgol
- Gweithgareddau masnach deg

Cefnogi rheolaeth o faterion diffyg maethiad a deiet iach yn ystod cyfnodau o ymbellhau cymdeithasol, cyfyngiadau symud a chwariantin. Mae Pwyllgor Sefydlog System ar Faethiad y Cenhedloedd Unedig (UNSCN) wedi cyhoeddi rhestr o adnoddau ar ymatebion systemau bwyd a maethiad [yma](#).

CEFNOGAETH INCWM

Gallai gweithgareddau gynnwys:

- Uwchsgilio ac ailhyfforddi gweithwyr er mwyn canfod ffynonellau incwm gwahanol
- Cefnogi unigolion i gynllunio ar gyfer colli incwm a rheoli cynilon sydd ar gael
- Cefnogi perchenogion busnes i addasu eu busnesau ar gyfer gweithio ar-lein neu o bell
- Cynorthwyo unigolion i ddod o hyd i fynediad i gyllid cymorth busnes a dulliau eraill o gymorth lle bo ar gael. Gellir dod o hyd i arweiniad pellach ar grwpiau cynilo seiliedig yn y gymuned yn ystod COVID-19 [yma](#).

DYSGU GYDOL OES

Gallai gweithgareddau gynnwys:

- Cefnogi dysgu yn y cartref neu o bell

Gallai'r adnodd [hwn](#) ar egwyddorion cynllunio rhaglenni ar gyfer dysgu o bell fod yn ddefnyddiol.

Diogelu

- Gofyniad am arfer Diogelu cryfach trwy gynnwys Pwyntiau Ffocws Diogelu a nodwyd, hyfforddedig ym mhob derbynydd grant fel amod cymeradwyo grant
- Mae'r amodau ar gyfer derbyn grant bach o dan y cynllun wedi'i ddiwygio i gynnwys gofyniad bod angen i bob asiantaeth neu grŵp sy'n derbyn grant:
- Dangos bod ganddyn nhw Bolisi Diogelu cymeradwy (anfonwch gyda'r cais)
- Mae'r holl gynrychiolwyr o fewn y sawl sy'n derbyn y grant yn ymwybodol o'r polisi a'i ofynion ac wedi cael eu sefydlu
- Dynodi cynrychiolydd fel y Pwynt Ffocws Diogelu sy'n gyfrifol am dderbyn pryderon diogelu, adrodd ymlaen o dan y weithdrefn y cytunwyd arni, cysylltu â CGGC ac ymateb yn briodol i bryderon. Bydd yn ofynnol i'r unigolyn dynodedig hwn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol diogelu ar-lein gyda CGGC

Amlinellir dyletswyddau'r unigolyn hwnnw mewn Cylch Gorchwyl a anfonir gyda llythyr cynnig grant, os cymeradwyir y cais.

I grynhoi, mae'r person hwnnw'n gyfrifol am:

- Derbyn a chofnodi adroddiadau o bryder Diogelu
- Rhoi gwybod i'r swyddog priodol CGGC am y pryder hwnnw
- Cysylltu â CGGC ar sail meini prawf CGGC i sicrhau ymateb priodol a chatau dilynol

Mae'n ofynnol bod y canolbwynt diogelu wedi ymgymryd â Hyfforddiant Diogelu sy'n cynnwys:

- esboniad o risgiau a dangosyddion pryderon diogelu
- esboniad o feini prawf pryder Diogelu adroddadwy

- esboniad o'r ystyriaethau a'r weithdrefn sy'n gysylltiedig â llunio adroddiad
- esboniad o'r meini prawf a'r broses i'w defnyddio gan dderbynnydd y grant a CGGC wrth ymateb i bryder diogelu yr adroddwyd amdano

FFYNONELLAU CEFNOGAETH ERAILL

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol ynglŷn â'r broses ymgeisio e-bostiwch walesafricagrants@wcva.cymru neu ffoniwch 0300 111 0124 os gwelwch yn dda.

Am gefnogaeth ar ddatblygiad eich cais cysylltwch â enquiries@hubcymruafrica.org.uk